FEANTSA

Datganiad Bergamo

Datganiad Bergamo

Mae tlodi wedi bod yn cynyddu ers lansio agenda Ewrop 2020. Yn wir, ers ei mabwysiadu yn 2010, mae 6 miliwn yn fwy o bobl yn byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r UE wedi ymbellhau oddi wrth y targed a osododd i'w hun yn 2010 o symud 20 miliwn o bobl allan o dlodi.

Mae'r cynnydd mewn tlodi hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn digartrefedd a nifer y bobl sydd mewn perygl o gael eu troi allan yn y rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau'r UE.

Mae digartrefedd yn her gymdeithasol ddybryd ar draws yr UE. Mae'n atal pobl rhag cael mynediad at hawliau sylfaenol ac yn arwain at gostau sylweddol i gymdeithas. Yng nghyd-destun ei ymrwymiad i ymladd yn erbyn tlodi ac allgáu cymdeithasol, mae'r UE yn cyflawni rôl bwysig wrth gefnogi Aelod-wladwriaethau i ddatblygu a chynnal strategaethau i fynd i'r afael â digartrefedd.

Daeth FEANTSA ag oddeutu 450 o ymarferwyr a gweithredwyr ar ddigartrefedd ynghyd yn ei Gynhadledd Polisi 2014 "Wynebu digartrefedd yn yr UE" a gynhaliwyd yn Bergamo, yr Eidal. Trafododd y cyfranogwyr ystod eang o heriau yn y frwydr yn erbyn digartrefedd ar lefel Ewropeaidd a thu hwnt, yn ogystal â'r datrysiadau i ddigartrefedd sy'n bodoli, y mae rhai ohonynt yn newydd ac arloesol.

Yn sgil Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewropeaidd newydd, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cyrraedd trobwynt. Yn ei gwrandawiad agoriadol diweddar, dywedodd y Comisiynydd etholedig dros Faterion Cymdeithasol, Cyflogaeth a Chynhwysiant, Marianne Thyssen, fod digartrefedd yn amlwg yn flaenoriaeth iddi. Mae FEANTSA yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd digartrefedd.

Felly, mae FEANTSA yn annog yr UE a'i Aelod-wladwriaethau i roi dulliau arloesol a mwy effeithiol ar waith yn y frwydr yn erbyn digartrefedd:

1. Dylai'r UE ac Aelod-wladwriaethau lunio cynlluniau gweithredu integredig ar bob lefel polisi i ymdrin â'r cynnydd mewn digartrefedd a throi allan.
2. Dylent fynd i'r afael â'r gyfran gynyddol o ymfudwyr yr UE sy'n ddigartref. Ar yr un pryd â chynnal hawl dinasyddion yr UE i symud yn rhydd, mae'n rhaid adnewyddu'r polisi ymfudo er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ddinasyddion yr UE sydd wedi ymfudo i Aelod-wladwriaethau eraill.
3. Dylent dderbyn nad yw pobl yn dewis tlodi a digartrefedd fel ffordd o fyw ac na ddylai pobl gael eu cosbi na'u troseddoli am ei hamddifadrwydd.
4. Dylid rhoi mwy o gymorth i bobl ddigartref a'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu troi allan mewn polisi tai – gan gynnwys defnyddio cynlluniau atal troi allan a mynediad at dai, er enghraifft trwy'r rhaglen brofedig "Tai yn Gyntaf", fel allweddi i leihau digartrefedd.
5. Dylai'r UE – trwy Eurostat – ac Aelod-wladwriaethau gasglu data am ddigartrefedd er mwyn llywio strategaethau effeithiol ar ddigartrefedd.
6. Dylai'r UE ac Aelod-wladwriaethau ystyried yr agwedd ar ddigartrefedd sy'n seiliedig ar hawliau a'r gyfraith.
7. Dylai'r UE ac Aelod-wladwriaethau ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol mewn ymdrechion i fynd i'r afael â digartrefedd.

Bergamo, 24.10.2014

European Federation of National Associations Working with the Homeless AISBL
Fédération Européenne d'Associations Nationales Travaillant avec les Sans-Abri AISBL
194 Chaussée de Louvain ■ 1210 Brussels ■ Belgium ■ Tel.: +32 2 538 66 69 ■ Fax: +32 2 539 41 74 ■ office@feantsa.org ■ www.feantsa.org

FEANTSA

European Commission

Cefnogir y cyhoeddiad hwn gan Raglen Cyflogaeth a Chydsefyll Cymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd - PROGRESS (2007-2013). Gweithredir y rhaglen hon gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fe'i sefydlwyd i roi cefnogaeth ariannol i'r broses o weithredu amcanion yr Undeb Ewropeaidd o ran cyflogaeth, materion cymdeithasol a chyfle cyfartal, ac felly cyfrannu at gyflawni nodau Strategaeth Ewrop 2020 yn y meysydd hyn.
Mae'r Rhaglen saith mlynedd yn targedu'r holl randdeiliaid sy'n gallu helpu i ffurfio datblygiad deddfwriaeth a pholisïau cyflogaeth a chymdeithasol priodol ac effeithiol, ar draws 27 yr UE, y Gymdeithas Masnach Rydd Ewropeaidd (EFTA)-yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a gwledydd sydd wedi gwneud cais ac sydd ar fin gwneud cais am aelodaeth o'r UE.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: http://ec.europa.eu/progress

Nid yw'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt na barn y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae FEANTSA yn gweithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, yr awdurdod contractio ar gyfer y cytundeb partneriaeth pedair blynedd y mae'r cyhoeddiad hwn wedi derbyn cyllid oddi tano.